# Camau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru

| MEWNBYNNAU | Arweinyddiaeth a Diwylliant | Rheoli Data ac Iechyd y Boblogaeth | Cyllid ac Adnoddau | Y Gweithlu | Cynnwys y Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|
| CAMAU GWEITHREDU | Penodi arweinwyr atebol i wreiddio cydraddoldeb ar draws y system Gofal Sylfaenol.<br><br>Mynegi rôl y GIG mewn anghydraddoldebau iechyd yn glir.<br><br>Hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant a chynnwys pob llais.<br><br>Gwreiddio tegwch yn yr holl waith cynllunio, llywodraethu, atebolrwydd a chontractau statudol. | Dadgyfuno'r holl fetrigau perfformiad fesul dimensiynau anghydraddoldeb.<br><br>Defnyddio data ar gyfer gweithredu ac nid ar gyfer monitro yn unig.<br><br>Gweithredu Dangosfwrdd Anghydraddoldebau Iechyd cenedlaethol.<br><br>Sicrhau bod galluogwyr fel llywodraethu, rhannu data a deddfwriaeth ar waith, a bod yr Adnodd Data Cenedlaethol yn cynnwys Gofal Sylfaenol. | Cyhoeddi data ar gyfer cyllid gofal sylfaenol ac amddifadedd.<br><br>Mandadu buddsoddiad sy'n canolbwyntio ar degwch drwy god ymarfer ariannu cenedlaethol.<br><br>Diwygio fformwlâu ariannu i adlewyrchu amddifadedd ac anghenion y boblogaeth.<br><br>Prif ffrydio cyllid arloesi ar gyfer rhaglenni y profwyd eu bod yn lleihau anghydraddoldebau. | Sefydlu targedau sy'n gysylltiedig â thegwch ar gyfer recriwtio a chadw'r gweithlu.<br><br>Blaenoriaethu mentrau fel prentisiaethau ar gyfer rolau clinigol ac anghlinigol. | Arwain trwy esiampl, drwy gynnwys cymunedau ac arbenigwyr trwy brofiad mewn datblygu polisi.<br><br>Cynnwys gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned mewn contractau.<br><br>Gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a dangos rhan y gymuned wrth gynllunio a gwerthuso iechyd.<br><br>Sicrhau bod prosiectau Gwella Ansawdd Gofal Sylfaenol yn canolbwyntio'n bendant ar degwch. |